# DIWEDDARIAD HAF 2026

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cefnogi Cymru Wledig

**LLYW.CYMRU**

**Cronfa Addington**
01926 620 135

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion**
0300 303 8268

**Arolwg moch daear marw**
08081 695110

**Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)**
0345 050 3456

**Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS**
01974 847 000

**Sefydliad DPJ**
0800 587 4262

**EID Cymru**
01970 636 959

**Cyswllt Ffermio**
03456 000 813

**Y Rhwydwaith Cymunedau Fferm**
03000 111 999

**Lantra Cymru**
01982 552 646

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
0300 065 3000

**Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd**
01970 636 688

**Sefydliad Fuddianol Amaethyddol Frenhinol**
0800 188 4444

**Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
0300 062 5004

**Samaritans yng Nghymru**
116 123

**Tir Dewi**
0800 121 4722

## Dilynwch ni ar

facebook.com/cymruwledig

LlCCefnGwlad - x.com/LlCCefnGwlad

Roedd y wybodaeth yn y Diweddariad Haf yn gywir o'i ddyddiad cyhoeddi (01/07/2026). Am y dyddiadau, y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: LLYW.CYMRU.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026
WG54552
ISBN digidol: 978-1-80853-013-5
ISBN argraffu: 978-1-80853-016-6

# CYNNWYS




04
RHAGAIR

05
FFERMWYR O GYMRU I ELWA AR ADOLYGIAD BIWROCRATIAETH

06
CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

10
TALIADAU GWLEDYDD CEFN GWLAD CYMRU

14
CYSWLLT FFERMIO

17
BANC DATBLYGU CYMRU — Y CYNLLUN BENTHYCIADAU AMAETHYDDIAETH GYNALIADWY

18
EID CYMRU

19
IECHYD A LLES ANIFEILIAID

20
HELPWCH AMDDIFFYN CYMRU RHAG Y GWAS YSGAFN MELYN

21
DEWCH I'N GWELD MEWN SIOEAU AMAETHYDDOL YR HAF HWN

22
HYBU CIG CYMRU

23
GWASANAETH CYSYLLTWYR FFERM

24
BLE ALLAF I GAEL CYMORTH?

# RHAGAIR



> ***"Mae Cymru wledig yn fy ngwaed, ac ar ôl magu fy mhlant ar fferm deuluol, roeddwn yn hynod falch o gael fy ngofyn i fod eich Gweinidog dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd***
>
> ***Mae'n anrhydedd mawr."***

Rwyf am i bawb sy'n darllen hwn wybod bod ganddyn nhw Weinidog sydd ar eu hochr.

Rhywun sy'n deall y diwydiant amaethyddol, sy'n gwybod mai'r fferm deuluol yw sylfaen ein heconomi wledig a'n cymunedau gwledig, ac a fydd yn gweithio bob dydd i sicrhau bod ffermio yng Nghymru yn ffynnu am genedlaethau i ddod.

Hoffwn ddiolch i chi am bopeth rydych chi'n ei wneud.

Mae ffermwyr Cymru yn cynhyrchu bwyd cynaliadwy, maethlon o'r ansawdd uchaf, y mae ein busnesau bwyd a diod yn ei droi'n  gynhyrchion o'r radd flaenaf sy'n cael eu mwynhau ledled Cymru a ledled y byd.

Cefnogi'r economi – creu swyddi – ychwanegu gwerth.

Rwyf wedi bod yn glir o'r dechrau ein bod am gyflawni yn gyflym i chi, gan roi ffocws cryf ar yr hyn sy'n gweithio ar lawr gwlad.

Symud i ffwrdd o reolau anhyblyg ynghylch ffermio yn ôl calendr, gan weithredu dull gwyddonol a chymesur â risg i fynd i'r afael ag achosion llygredd amaethyddol.

Byddwn yn cael ein harwain gan y wyddoniaeth hefyd o ran mynd i'r afael â TB mewn gwartheg ac adnewyddu'r strategaeth i gael gwared â'r clefyd o Gymru – gan gynnwys mewn bywyd gwyllt.

Rydym eisoes wedi dechrau edrych ar sut y gallwn leihau'r baich biwrocrataidd ar ffermydd teuluol yng Nghymru.

Byddwn yn creu Strategaeth Fwyd Genedlaethol a fydd yn cynyddu diogelwch bwyd ac yn cryfhau cadwyni cyflenwi bwyd.

Gwnawn hyn i gyd wrth sicrhau bod anghenion ein cymunedau gwledig yn cael eu hystyried yn briodol yn y polisïau ehangach a gyflwynwn – gan gynnwys ar yr amgylchedd a'r argyfwng costau byw.

Felly, mae llawer i'w wneud. Ond mae hon yn lywodraeth sydd eisoes yn cyflawni ar gyfer Cymru wledig, a byddwn yn parhau i fynd mor gyflym â phosibl gyda brwdfrydedd a ffocws clir.

Byddaf yn y Sioe Frenhinol a llawer o sioeau eraill sy'n cael eu cynnal ledled y wlad yr haf hwn, felly mae croeso ichi ddod draw i ddweud helo. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chymaint ohonoch â phosibl a chlywed eich barn.

**Llyr Gruffydd AS**
Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd

# FFERMWYR O GYMRU I ELWA AR ADOLYGIAD BIWROCRATIAETH

Bydd ffermwyr yng Nghymru yn cael dweud eu dweud ar fiwrocratiaeth, wrth i'r Gweinidog dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, Llŷr Gruffydd, benodi cadeirydd annibynnol i arwain adolygiad i'r baich biwrocrataidd ar ffermydd teuluol.

- Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r cyntaf o'i hymrwymiadau yn ei maniffesto 100 diwrnod i'r sector ffermio.
- Lansio adolygiad annibynnol i archwilio'r baich biwrocrataidd ar fusnesau fferm Cymru.
- Penodi'r ffermwr profiadol a chyn-Lywydd NFU Cymru, John Davies, i arwain y gwaith.

Bydd John Davies, ffermwr cig eidion a defaid o gyffiniau Aberhonddu a chyn-Lywydd NFU Cymru, yn arwain yr adolygiad naw mis o hyd. Bydd yn siarad yn uniongyrchol â'r rhai sy'n llenwi ffurflenni – ffermwyr ac asiantiaid sydd â phrofiad bywyd o ofynion ar ffermydd.

Bydd yr adolygiad yn asesu effaith gronnol gofynion ar fusnesau fferm ac yn archwilio lle mae posibilrwydd o newid, a'r angen amdano.

Gallwch rannu eich barn neu'ch tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad drwy e-bostio:
**AdolygurBaich@llyw.cymru**

# CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

## Trosolwg

Dechreuodd Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ar 1 Ionawr, ac rydych bellach wedi gwneud cais am naill ai'r SFS neu'r BPS ar eich Ffurflen Cais Sengl.

Os gwnaethoch wneud cais am SFS, mae angen i chi sicrhau eich bod yn gwybod pa Weithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes fferm, ac y gallwch fodloni'r holl ofynion erbyn diwedd y flwyddyn.

Am holl ofynion y cynllun, gweler:

**llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy**

## Dangosfwrdd Haen Gyffredinol yr SFS

Mae Dangosfwrdd Haen Cyffredinol SFS 2026 bellach ar gael ar RPW Ar-lein.

Bydd y Dangosfwrdd yn cadarnhau'r Camau Gweithredu Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch busnes ffermio ac yn esbonio'r wybodaeth sydd ei hangen i gadarnhau cwblhau pob Cam Gweithredu Cyffredinol.

Caiff y Dangosfwrdd ei ddiweddaru yn ddiweddarach yn y flwyddyn i dderbyn cadarnhad awtomatig o unrhyw Meincnodi neu Ddysgu a gwblhawyd gyda Cyswllt Fermio. Byddwch yn derbyn negeseuon darlledu trwy eich cyfrif RPW Ar-lein pan fydd y rhain ar gael i'w gweld ar y Dangosfwrdd.

Mae canllaw "Sut i Gwblhau" ar gyfer y Dangosfwrdd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Symud ymlaen â'ch Gweithredoedd Cyffredinol

Gellir dod o hyd i ddisgrifiad llawn o'r hyn y mae angen i chi ei wneud i fodloni pob Gweithred Gyffredinol yn y llyfr rheolau'r cynllun.

Mae gan rai Gweithredoedd Cyffredinol ofynion y mae angen i chi eu bodloni ar adegau penodol o'r flwyddyn, megis cynnal cynefinoedd o dan UA5 neu greu cynefinoedd dros dro o dan UA6. Os oes angen i chi greu cynefin dros dro ychwanegol o dan UA6 i fodloni gofyniad y cynllun ar gyfer bod ag o leiaf 10% o gynefin ar eich fferm, mae yna ddyddiadau sefydlu penodol y mae'n rhaid i chi eu bodloni yn dibynnu ar ba fathau o gynefinoedd rydych chi'n eu dewis.

Nid yw Gweithredoedd Cyffredinol eraill yn arbennig ar gyfer adegau penodol o'r flwyddyn, ac rydym yn argymell eich bod yn eu lledaenu dros adegau pan allant ddarparu'r gwerth mwyaf i chi fel Profi Pridd UA1 ac asesiadau Rheoli Plaladdwyr yn Integredig UA2. Rydym yn argymell bod ffermwyr da byw yn cysylltu â'u milfeddyg yn gynnar i sicrhau bod digon o amser i gwblhau'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid sy'n ofynnol o dan UA12.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'ch gallu i gwblhau eich Gweithredoedd Cyffredinol, er enghraifft rydych wedi cael gwybod am amseroedd aros hir ar gyfer eich milfeddyg neu o ran labordai profi pridd, gallwch gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW. Rydym yn argymell eich bod chi'n dechrau gweithio tuag at eich Gweithredoedd Cyffredinol cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi problemau posibl.

## Eich cynllun i blannu: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd newydd ar gael naw


Mae llawer o ffyrdd y gall coed weithio i'ch fferm. P'un a ydych yn cryfhau eich perthi/gwrychoedd, yn plannu mewn corneli caeau neu'n creu coetiroedd – gall coed ddarparu cysgod a lloches, gwella cymeriad tirwedd a chreu ffynhonnell incwm hirdymor.

Mae'r Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd bellach yn fyw ar RPW Ar-lein. Mae wedi'i gynllunio i'ch helpu i ystyried y fferm gyfan a nodi lle y gallai coed a gwrychoedd weithio orau – wedi'i arwain ar draws themâu gan gynnwys Cynhyrchu Bwyd a Ffibr a Bioamrywiaeth.

Y cynllun rydych yn ei greu yw eich cynnig ar gyfer plannu yn y dyfodol. Mae'n ddangosol – ni fydd disgwyl ichi blannu ym mhob lleoliad rydych yn ei fapio, ac nid yw'n rhoi caniatâd i blannu. Efallai na fydd rhai ardaloedd yn addas neu'n gymwys i'w plannu, a bydd angen i gynigion fodloni gofynion y cynllun.

Bydd angen ichi gwblhau eich cynllun o fewn eich blwyddyn gyntaf yn y SFS. Rhaid i chi ddangos cynnydd erbyn 31 Rhagfyr 2028, gyda'r plannu wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2029, gan gynnwys o leiaf 0.1 ha neu 250 o goed os ydynt wedi'u plannu'n unigol. Gellir plannu mewn gwahanol ffyrdd – fel coed unigol, grwpiau bach, coed gwrychoedd neu floc – naill ai drwy grant Llywodraeth Cymru neu'n annibynnol.

Mae'r manylion llawn wedi'u hamlinellu yng nghanllawiau'r cynllun.



Mae cymorth ar gael drwy'r SFS, gan gynnwys grantiau ar gyfer creu coetir a gwrychoedd. Os ydych yn defnyddio cynllun Llywodraeth Cymru, gwnewch gais erbyn 1 Tachwedd 2028 a derbyn Llythyr Dyfarnu Grant erbyn 31 Rhagfyr 2028; rhaid cwblhau'r gwaith plannu erbyn 31 Mawrth 2029. Bydd dechrau'n gynnar yn rhoi rhagor o hyblygrwydd, rhagor o amser i gynllunio a mynediad gwell at gymorth.

Am fanylion llawn cyfeiriwch at ganllawiau'r Haen Gyffredinol neu ewch:

**llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-haen-gyffredinol-llyfryn-rheolau**

## Gweithred Gyffredinol 10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd

Nod y Weithred Gyffredinol hon yw eich annog i ystyried ble y byddai plannu coed, coetir neu berthi/gwrychoedd o fudd i'ch busnes ffermio.


Mae'r Weithred Gyffredinol hon yn cynnwys dau ofyniad gwahanol:

- Cwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd ar RPW ar-lein erbyn 31 Rhagfyr 2026.
- Dangos cynnydd tuag at roi eich cynllun ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2028.

Bydd angen i chi gwblhau Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd, waeth beth yw'r arwynebedd presennol o orchudd canopi coed neu berthi/gwrychoedd ar eich daliad neu ddeiliadaeth y tir.

Mae canllaw "Sut i Gwblhau" ar wahân yn benodol ar gyfer UA10 wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-haen-gyffredinol-2026



### Nodyn Atgoffa Pwysig

Hoffem atgoffa cwsmeriaid bod yn **rhaid cwblhau'r holl Gamau Gweithredu Cyffredinol perthnasol yn 2026.** Bydd gennych tan 15 Ionawr 2027 i sicrhau bod eich gwybodaeth ar y Dangosfwrdd yn cael ei diweddaru'n llawn.

Sylwch na fydd taliadau balans ar gyfer 2026 yn cael eu prosesu nes bod yr holl Camau Gweithredu Cyffredinol perthnasol wedi'u cwblhau.

Anogir cwsmeriaid i fewngofnodi, adolygu eu Dangosfwrdd yn rheolaidd, a chwblhau camau gweithredu wrth iddynt ddod ar gael.

## Archwiliadau Haen Gyffredinol yr SFS

Bydd canran o ffermwyr SFS Cyffredinol yn cael eu dewis a'u harchwilio yn ddiweddarach eleni. Mae Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) wedi cyflwyno cyfundrefn arolygu newydd ar gyfer SFS. Bydd arolygwyr yn ymgysylltu ac yn trefnu amser cyfleus gyda ffermwyr, ac er bod angen iddynt wirio'r tir fferm a ddatganwyd a'r Camau Gweithredu Cyffredinol a gwblhawyd ar adeg yr archwiliad, byddant hefyd yn rhoi cymorth ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau a allai fod gan ffermwyr am ofynion y cynllun.

Bydd rhai o'r archwiliadau hyn hefyd yn cynnwys elfennau gwirio sy'n berthnasol i Linell Sylfaen Reoleiddiol SFS, y mwyafrif helaeth ohonynt yn rhan o Drawsgydymffurfio o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS).

Mae Llinell Sylfaen Reoleiddiol SFS yn cynnwys gofynion Rheoliadau Adnabod Da Byw a Rheoli Llygredd Amaethyddol (CoAP), sydd â chyfundrefnau archwilio a thargedau ar wahân. Bydd ymgysylltu a gwiriadau ar gyfer yr archwiliadau hyn yn parhau fel y nodir yn y rheoliadau sylfaenol.

Ymgyfarwyddwch â gofynion yr SFS a'r hyn i'w ddisgwyl yn ystod yr arolygiad, a drafodir yn y canllaw 'Pan fydd yr arolygydd yn galw' sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

**llyw.cymru/archwiliadau-cynllun-ffermio-cynaliadwy-ar-llinell-sylfaen-reoleiddiol**

## Haenau Opsiynol a Chydweithredol


Ym mis Mawrth cyhoeddwyd trosolwg o Haenau Opsiynol a Chydweithredol yr SFS. Dyluniwyd y trosolwg hwn i roi gwybod i chi am y gefnogaeth ychwanegol a fydd yn cael ei chyflwyno trwy gydol 2026 a 2027, fel eich bod chi'n gwybod pa gyfleoedd i edrych amdanynt.

Mae trosolwg o Haenau Dewisol a Chydweithredol y SFS ar gael yma:

**llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-haenau-opsiynol-chydweithredol-trosolwg-or-cymorth-sydd-ar-gael-o-2026**

Bydd y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol yn cael eu cyflwyno fesul cam, a byddwn yn cyfathrebu hyn drwy Gwlad ac yn:

**llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**



# TALIADAU GWLEDIG CYMRU

## Dyddiadau Allweddol

| | |
|---|---|
| 04 MAW – 20 TACH | Grant Creu Coetir 2026 |
| 01 ION – 31 RHAG | Y Cynllun Cynllunio Creu Coetir 2026 |

I weld dyddiadau ymgeisio'r holl gynlluniau cymorth amaethyddol, ewch i:

**llyw.cymru/cynlluniau-gwledig-dyddiadau-ymgeisio**

Bydd manylion am yr holl ganllawiau ar gyfer Cynlluniau Cymorth Amaethyddol ar gael ychydig cyn i'r cyfnod ymgeisio agor. Gallwch eu gweld yma:

**llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig**



## Cyfnod Pontio Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

Dechreuodd Cyfnod Pontio'r BPS ar 1 Ionawr 2026, gyda chyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

Roedd gan ffermwyr yr opsiwn i hawlio am y BPS neu'r SFS ar y Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026. Pan fydd busnes fferm wedi hawlio o dan yr SFS, ni chaiff hawlio o dan y BPS eto.

Nid oes unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd nac i reolau'r cynllun yn ystod y cyfnod pontio hwn – fodd bynnag, bydd taliadau'r BPS yn gostwng dros y tair blynedd nesaf, yn seiliedig ar werthoedd hawliau'r BPS 2025, fel a ganlyn:

- 60% yn 2026
- 40% yn 2027
- 20% yn 2028

Ni fydd taliadau'r BPS ar gael yn 2029.

2025 oedd y flwyddyn olaf ar gyfer y Gronfa Genedlaethol a'r rheol dwy flynedd i ddefnyddio hawliau.

Ni fydd Taliadau Ffermwyr Ifanc bellach ar gael i hawlwyr newydd.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru am fwy o wybodaeth:

**llyw.cymru/cynllun-y-taliad-sylfaenol**



## Y Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig – Y Ffi Apelio

O 1 Ionawr 2026 ymlaen, cynyddodd y ffi am gyflwyno apêl Cam 2 i dalu costau'r Panel Apelio Annibynnol.

Mae'r ffioedd apelio diwygiedig yn berthnasol i bob apêl Cam 2 wedi'i gyflwyno o'r dyddiad hwn, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag iawndal TB.

Mae'r canllawiau apelau diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

llyw.cymru/apeliadau-grantiau-thaliadau-gwledig-canllaw

## RPW Ar-lein – Cau Porth y Llywodraeth

Cafodd gwasanaeth Porth y Llywodraeth ei ddiffodd ar 30 Mehefin 2026. O fis Gorffennaf ymlaen, dim ond drwy One Login GOV.UK y bydd modd cael mynediad i RPW Ar-lein.

Mae cyflwyno a gweinyddu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 yn dibynnu ar One Login GOV.UK.

Gwahoddwyd holl gwsmeriaid RPW Ar-lein i symud o Borth y Llywodraeth i GOV.UK One Login cyn cau'r gwasanaeth. Bydd angen i gwsmeriaid nad ydynt wedi symud eu cyfrif gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid RPW am gymorth i gael mynediad i'w cyfrif RPW Ar-lein.

llyw.cymru/rpw-online-migrating-government-gateway-govuk-one-login-html

## Creu Coetir: Cyfleoedd ar gyfer 2026

Rydyn ni bellach yn derbyn ceisiadau am gymorth Creu Coetir bellach, a'r dyddiad cau yw 20 Tachwedd 2026.

Eleni, mae'r cynnig wedi cael ei ddiweddaru i fod yn symlach, yn fwy hyblyg – ac i gyd-fynd yn well ag anghenion ymarferol fferm. Mae eitemau cyfalaf newydd ar gael i gefnogi rheoli dŵr ochr yn ochr â phlannu, gan gynnwys cafnau, pibellau a gatiau dŵr ar gyfer prosiectau glannau'r afon.

Mae cyfraddau talu hefyd wedi cael eu cynyddu ar gyfer 2026, gyda chymhelliant ychwanegol o £825/ha ar gael ar gyfer plannu coed llydanddail brodorol penodol lle bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn tair blynedd gyntaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae contractau cyflawni o dan y Cynllun Grant Creu Coetir wedi cael eu hestyn o un flwyddyn i ddwy, gan ddarparu rhagor o hyblygrwydd ar gyfer cynllunio a gweithredu.

Mae amrediad o opsiynau plannu ar gael i gyd-fynd â gwahanol systemau fferm, gan gynnwys blociau o goetir, lleiniau cysgodi ac amaeth-goedwigaeth. Bydd plannu o leiaf 0.1 hectar yn cyfrif tuag at Gynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gydag opsiynau amaeth-goedwigaeth ar gael ar gyfer plannu 250 o goed gwasgaredig.

**Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i:**

llyw.cymru/grant-creu-coetir

llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir





## Cymorth Digidol

Mae cymorth digidol yn parhau i fod ar gael yn ein Swyddfeydd Rhanbarthol. Os oes angen cymorth arnoch i gyrchu neu ddefnyddio RPW Ar-lein neu i ddiweddaru'r Dangosfwrdd SFS, gallwch drefnu apwyntiad ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid RPW.

Mae help a chefnogaeth hefyd ar gael i chi drwy gydol blwyddyn y cynllun. Yn ogystal â chymorth digidol, gallwch gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cwsmeriaid RPW neu'r Gwasanaeth Cyswllt Fferm (FLS) i gael arweiniad ar ofynion y cynllun a chadw cofnodion. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig hyfforddiant a chyngor i'ch helpu i gwrdd â'r Camau Gweithredu Cyffredinol a manteisio i'r eithaf ar y cynllun.

**I gael manylion cyswllt, ewch i:**

llyw.cymru/cysylltu-thaliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein

# Cyswllt Ffermio:
# CANOLBWYNTIO AR WEITHREDOEDD CYFFREDINOL Y CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY (SFS)

Mae Cyswllt Ffermio'n cynnig cymorth ymarferol a hyblyg i helpu ffermwyr gyflawni gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Gweler isod y gefnogaeth sydd ar gael drwy Cyswllt Ffermio tuag at UA4 a UA12

## UA4

GWEITHRED GYFFREDINOL 4 - Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Gallwch gael mynediad at y canlynol drwy wasanaethau wedi'u hariannu a'r rhai gyda chymhorthdal:

- Cyrsiau hyfforddiant
- Modiwlau e-ddysgu
- Mentora
- Academi Amaeth
- Agrisgôp
- Dosbarthiadau meistr
- Gweithdai
- Grwpiau trafod
- Digwyddiadau ar y fferm

---

Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi ffermwyr i gwrdd â'r **chwe awr o ddysgu blynyddol** sydd ei angen o dan Weithred Gyffredinol 4.


Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**


FARMING connect
cyswllt FFERMIO

# UA12

## GWEITHRED GYFFREDINOL 12: Iechyd a lles anifeiliaid

**Gallwch gael mynediad at y canlynol drwy'r Gwasanaeth Cynghori:**

- Cyngor ar iechyd a pherfformiad anifeiliaid
- Asesiad o effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar lefel busnes
- Cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra ar gyfer cyflawni gofynion y cynllun

Bydd hyn yn eich helpu i:

- Ddeall beth mae gweithred gyffredinol 12 yn ei olygu i'ch busnes
- Nodi bylchau cyn archwiliad
- Cynllunio gwelliannau mewn ffordd strwythuredig

**Mae ein Gwasanaeth Mentora'n cynnig**

- Hyd at 15 awr o fentora'n rhad ac am ddim
- Gweithio gyda ffermwr sy'n gyfarwydd â'r testun

Gall mentoriaid:

- Egluro gweithred gyffredinol 12 mewn ffyrdd ymarferol
- Eich helpu i roi canlyniadau'r cylch gwella iechyd anifeiliaid (AHIC) bîff a llaeth ar waith ar eich fferm
- Rhannu dulliau sydd wedi'u profi sy'n arbed amser ac arian
- Cynnig cymorth ymarferol a chyfrinachol mewn amgylchedd heb gael eich barnu

**Digwyddiadau a Gweithdai**

Mae Cyswllt Ffermio'n darparu gwahanol ddigwyddiadau gan gynnwys:

- Gweithdai iechyd a lles anifeiliaid
- Dosbarthiadau meistr a grwpiau trafod
- Arddangosiadau ar y fferm drwy Ein Ffermydd

Mae'r rhain yn darparu:

- Enghreifftiau ymarferol o sut mae ffermwyr eraill yn cyflawni gweithred gyffredinol 12
- Dysgu gan gymheiriaid a magu hyder


Am ragor o wybodaeth ar sut all Cyswllt Ffermio helpu gyda gweithredoedd cyffredinol eraill y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar **03456 000813** neu ewch ar y wefan.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**FARMING connect**
**cyswllt FFERMIO**

DATAFFERM+

# Datgloi potensial eich Fferm gyda phŵer meincnodi DATAFFERM+









## BETH YW MEINCNODI?


Mae meincnodi yn offeryn rheoli pwerus sy'n caniatau i chi fesur perfformiad eich fferm a chymharu canlyniadau yn erbyn perfformiad blaenorol, ffermydd tebyg a chyfartaledd y diwydiant.

## Manteision Meincnodi

- Nodi cryfderau a gwendidau
- Hybu proffidioldeb
- Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata
- Gwella effeithlonrwydd
- Aros yn gystadleuol
- Gosod nodau realistig

## Mae DATAFFERM+ yn cynnig

✓ Dull dangosyddion perfformiad allweddol (DPA)
✓ Dangosyddion ffisegol, ariannol ac amgylcheddol
✓ Dangosyddion perfformiad allweddol sector-benodol a'r fferm gyfan
✓ Dadansoddiad ar unwaith gyda chymorth wedi'i deilwra
✓ Hawdd ei lywio
✓ Teitl y DPA yn unig a fydd yn cael ei rannu'n awtomatig gydag RPW (dim data perfformiad)




**Bydd angen i chi gofrestru drwy GOV.UK Onelogin a Cyswllt Ffermio**

**Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol am ragor o wybodaeth.**
*Rydym yn croesawu galwadau'n Gymraeg*

**03456 000 813**

**llyw.cymru/cyswlltffermio**

**Sganiwch y cod QR i ddarganfod sut mae meincnodi wedi bod o fudd i ffermwyr Cymru.**

# Cyllid i gefnogi dyfodol ffermio Cymru

Banc
Banc Datblygu Cymru
Development Bank of Wales



**Gan lansio yn haf 2026, bydd y Cynllun Benthyciadau Amaethyddiaeth Gynaliadwy yn helpu busnesau fferm ledled Cymru i fuddsoddi mewn ffyrdd cynaliadwy o weithio.**

Nod y cynllun yw darparu cyllid fforddiadwy i gefnogi'r trawsnewid i ddull cynhyrchu a rheoli tir sy'n fwy gwydn.

## Nodweddion allweddol

— Benthyciadau o £25,001 i £1 miliwn
— Cyfradd llog sefydlog o 3%
— Telerau ad-dalu o hyd at 15 mlynedd
— Gwyliau ad-dalu ymlaen llaw o 6 mis

## Buddsoddiadau cymwys

Mae'r rhain yn cynnwys effeithlonrwydd ynni a storio, cynhyrchu ynni adnewyddadwy i'w ddefnyddio ar y fferm, rheoli gwastraff a maetholion, a seilwaith ac asedau fferm.

Bydd meini prawf cymhwysedd pellach yn berthnasol.

## Cofrestrwch eich diddordeb

bancdatblygu.cymru/amaethyddiaeth

*Sganiwch fi*

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is–gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoli Darbodus (ARhD) nac yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru dri o is–gwmnïau sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Noder os gwelwch yn dda nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is–gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc i'w gael yn www.bancdatblygu.cymru.

# EID CYMRU



## Cofrestrwch am gyfrif gwartheg ar EIDCymru heddiw

Roedd 1 Gorffennaf 2026 yn nodi dechrau'r broses o drosglwyddo gwasanaethau gwartheg o System Symud Gwartheg Prydain (BCMS) a'r System Olrhain Gwartheg (CTS) i EIDCymru.

I gyd-fynd â'r cam nesaf o ddeddfwriaeth Dolur Rhydd Feirysol Gwartheg (BVD) yng Nghymru, gall ceidwaid gwartheg nawr greu cyfrif gwartheg ar EIDCymru i gael mynediad at statws BVD eu buches a'u daliad ar-lein a'i weld.

Yn ddiweddarach yn 2026, bydd symud cofnodion ceidwaid yn raddol i EIDCymru yn dechrau, gan ganiatáu adrodd ar yr holl enedigaethau, marwolaethau a symudiadau gwartheg drwy'r system a'r gwasanaeth. Am y tro, dylai ceidwaid barhau i ddefnyddio CTS ar gyfer adrodd genedigaethau, marwolaethau a symudiadau gwartheg hyd nes y bydd rhybudd pellach.

Creu cyfrif gwartheg ar EIDCymru i weld eich statws BVD.

I weld eich statws BVD ar-lein, bydd angen i chi greu cyfrif gwartheg ar EIDCymru.

Bydd angen i ffermwyr sydd eisoes yn defnyddio EIDCymru ar gyfer defaid a geifr gofrestru ar gyfer cyfrif ar wahân ar gyfer gwartheg. Mae'r trefniant hwn yn caniatáu i wasanaethau defaid a geifr presennol barhau heb newid tra bod gwasanaethau gwartheg yn trosglwyddo i ffwrdd o CTS.

## Sut i Gofrestru

**I gofrestru, ewch i eidcymru.org**

dewiswch eich iaith, yna cliciwch ar 'Gwasanaeth Gwartheg' ac yna 'Cofrestru'.

**Byddwch yn gyfrifol am y canlynol:**

- Eich rhif CPH.
- Eich Rhif buches.
- Eich Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Cyfeiriad e-bost (gallwch ddefnyddio'r un cyfeiriad â'ch cyfrif defaid a geifr).

## Angen help i gofrestru?

Mae cymorth ar gael drwy e-bostio **contact@eidcymru.org** neu ffonio **01970 636959.**

Os nad ydych yn defnyddio gwasanaethau ar-lein, gallwch gysylltu â'ch milfeddyg i ddarganfod statws BVD eich buches.

# IECHYD A LLES ANIFEILIAID

## Y cam nesaf yn y gwaith i ddileu BVD bellach ar waith – 1 Gorffennaf 2026

Yn dilyn gwaith gyda'r Grŵp Llywio ar gyfer Dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD), daw deddfwriaeth newydd i rym yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2026.

O 1 Gorffennaf 2026 ymlaen, bydd yn ofynnol i geidwaid heb statws buches BVD negyddol gynnal prawf feirws (antigen) cyn symud eu gwartheg oddi ar eu daliad. Dim ond anifeiliaid sydd wedi cael prawf negyddol a gaiff symud i fyw – mae'r prawf yn ddilys am 60 diwrnod. Mae symud anifeiliaid BVD positif neu sydd wedi'u heintio'n barhaus oddi ar ddaliad yn drosedd. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol ni waeth a fydd yr anifeiliaid yn symud o fewn neu y tu allan i Gymru.

Mae'r gofynion am brawf feirws (antigen) arall ar ôl symud hefyd mewn grym ar gyfer anifeiliaid nad yw eu statws BVD yn hysbys sy'n symud o'r tu allan i Gymru i ddaliad yng Nghymru.

Mae canllawiau manwl ynghylch gofynion profi a statws BVD ar gael ar dudalennau BVD ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Mae rhagor o wybodaeth am BVD a chanllawiau ymarferol ar gael yn:**


bvdcymru.wales/cy/

Mae gwybodaeth am statws BVD eich buches a statws anifeiliaid unigol ar gael drwy EIDCymru, lle y gallwch nawr gofrestru ar gyfer cyfrif gwartheg.

Os nad ydych yn defnyddio gwasanaethau ar-lein, gallwch gysylltu â'ch milfeddyg i gael statws BVD eich buches, a threfnu sgrinio os oes angen.



# HELPWCH I DDIOGELU CYMRU RHAG Y GACYNEN FELYNGOES



Yn garedig gan Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Hawlfraint y Goron

Mae'r gagynen felyngoes (neu'r gagynen Asiaidd o roi ei henw arall arni) yn bryfyn nad yw'n frodorol i'r DU. Yn wahanol i'n cacynen Ewropeaidd frodorol, mae'n targedu gwenyn mêl a pheillwyr eraill.

Fe'i cofnodwyd gyntaf yn Ffrainc yn 2004 ac ers hynny mae wedi lledaenu i wledydd Ewropeaidd eraill, gan gyrraedd Lloegr yn 2016. Ym mis Ionawr eleni, cofnodwyd y darganfyddiad cyntaf a gadarnhawyd yng Nghymru ger Wrecsam ac mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) wedi bod yn cynnal gwaith trapio yn y gwanwyn ar gyfer breninesau yn yr ardal hon.

Mae'r gacynen felyngoes yn mynd o gwmpas ei phethau o fis Chwefror i fis Tachwedd, ond rydych chi'n fwyaf tebygol o'i gweld o fis Gorffennaf ymlaen. Gellir dod o hyd iddi ar neu o gwmpas:

- planhigion blodeuol (yn enwedig iorwg/eiddew yn yr hydref)
- cychod neu nythod gwenyn, a
- ffrwythau sy'n pydru fel afalau wedi cwympo.

Mae rhai o'n pryfed brodorol yn edrych yn debyg i gacwn melyngoes. Defnyddiwch y canllaw adnabod i ddysgu sut i'w hadnabod:

**nonnativespecies.org/assets/Uploads/ID_Vespa_velutina_Asian_Hornet_5.0-1.pdf**

Rydym yn dibynnu ar bobl i roi gwybod os ydynt yn amau eu bod wedi gweld cacwn melyngoes. Gellir rhoi gwybod drwy ddefnyddio ffurflen ar-lein:

**risc.brc.ac.uk/alert.php?species=asian_hornet**

Cofiwch gynnwys llun a lleoliad y safle gyda phob adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio taflen 'Cacwn melyngoes: sut i'w hadnabod':

**llyw.cymru/cacwn-melyngoes-sut-iw-hadnabod**

# DEWCH I'N GWELD MEWN SIOEAU AMAETHYDDOL YR HAF HWN

Bydd staff Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, yn bresennol ym Mhafiliwn Llywodraeth Cymru yn ystod Sioe Ffenhinol Cymru, a gynhelir o ddydd Llun 20 Gorffennaf i ddydd Iau 23 Gorffennaf.







Bydd Staff Cyslltwyr Fferm hefyd yn bresennol ar stondin Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â staff Cyswllt Ffermio, yn y sioeau canlynol:

| | |
|---|---|
| Digwyddiad Defaid NSA, Malvern | Dydd Mawrth 28 Gorffennaf |
| Sioe Sir Aberteifi | Dydd Sadwrn 1 Awst |
| Sioe Môn | Dydd Mawrth 11 a dydd Mercher 12 Awst |
| Sioe Sir Benfro | Dydd Mercher 19 a dydd Iau 20 Awst |
| Sioe Dinbych a Fflint | Dydd Iau 20 Awst |
| Sioe Sir Feirionnydd | Dydd Mercher 26 Awst |
| Sioe Brynbuga | Dydd Sadwrn 12 Medi |

Bydd staff ar gael i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac EID Cymru.

**Dewch draw i ddweud helo.**

# HYBU CIG CYMRU

## Hybu Cig Cymru yn amlinellu gweledigaeth newydd ar gyfer y diwydiant

Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

Mae HCC wedi lansio ei gynllun gweithredu strategol newydd ar gyfer y diwydiant, sef Y Diwydiant Cig Coch: Darparu Gwerth i Gymru, i baratoi ar gyfer ei gylchred cyflawni pedair blynedd nesaf (Ebrill 2026 – 2030).

Mae'r cynllun gweithredu wedi ceisio canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth allweddol a amlygwyd yn ystod ei gyfnod ymgysylltu â'r diwydiant dros y deuddeg mis diwethaf:

**Blaenoriaeth 1:** Cynyddu cyfaint a gwerth cig coch brand Cymru a werthir.

**Blaenoriaeth 2:** Datblygu ac arwain y gwaith o weithredu mentrau sy'n gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol.

**Blaenoriaeth 3:** Darparu eiriolaeth dros y diwydiant sy'n rhagweithiol, yn gadarn, ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r tri maes blaenoriaeth hyn yn ceisio cefnogi cenhadaeth y corff ardoll o arwain a chefnogi diwydiant cig coch Cymru i gynyddu ei bresenoldeb yn y farchnad, ei wydnwch economaidd a'i gystadleugarwch byd-eang wrth ymdrechu i gael effaith amgylcheddol gadarnhaol.

Esboniodd Prif Swyddog Gweithredol HCC, José Peralta, y bydd cydweithio a gweithio ar draws y diwydiant yn hanfodol i sicrhau llwyddiant i ddiwydiant cig coch Cymru yn y blynyddoedd i ddod:

*"Byddwn yn mabwysiadu dull cydweithredol, a fydd yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid ar draws y diwydiant sy'n cael eu gyrru gan bwrpas cyffredin. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ystyrlon.*

*"Mae gan HCC gylch gwaith eang, ac mae'r sector yn cyflwyno sawl her i ni sydd yn aml y tu hwnt i'n rheolaeth. Fodd bynnag, mae hefyd nifer o gyfleoedd y byddwn yn parhau i'w dilyn i hyrwyddo cynhyrchion cig coch eiconig ein gwlad."*

Gall talwyr yr ardoll a rhanddeiliaid ddilyn cynnydd HCC ar ei gynllun gweithredu newydd trwy ystod o sianeli cyfathrebu, gan gynnwys y wefan, cyfryngau cymdeithasol a'r e-gylchlythyr wythnosol. Am ragor o wybodaeth neu i gofrestru ar gyfer diweddariadau e-bost HCC, cysylltwch ag: **info@hybucig.cymru**

# Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm

## Gwasanaeth cymorth wedi'i ariannu'n llawn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydym yn rhoi arweiniad i gwsmeriaid mewn perthynas â holl feysydd polisi ynghyd a cynlluniau ffarmwriaeth a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.





## Rydydm yma i helpu, cysylltwch a ni.

### CYMRU GYFAN

**Rita Jones** Cymraeg
07971 048619
rita.jones@gov.wales

### DE-DDWYRAIN CYRMU

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### DE-ORLLEWIN

**Catrin Jones** Cymraeg
07968 159637
catrin.jones3@gov.wales

**Caitlin Harley** Cymraeg
07890 663351
Caitlin.harley@gov.wales

### GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

**Armando Morgan** Cymraeg
07774 950639
armando.morgan@gov.wales

### GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU

**Janet Phillips** Cymraeg
07774 950654
janet.phillips@gov.wales

### CANOLBARTH CYMRU

**Steve Meredith**
07721 894873
stephen.meredith@gov.wales

**Eve Bridgewater**
07721 894869
eve.bridgewater@gov.wales

**Jane Walters**
07721 894875
jane.walters@gov.wales

FLS
Tîm Cysylltwyr Fferm
Farm Liaison Service

# BLE ALLA I GAEL HELP?

## CYSYLLTWCH Â NI

**CRONFA ADDINGTON**
01926 620135

**CYSWLLT FFERMIO**
03456 000 813

**Y RHWYDWAITH CYMUNEDAU FFERM**
03000 111 999
help@fcn.org.uk

**FARMWELL CYMRU**
www.farmwell.wales

**TIR DEWI**
0800 1214722
mail@tirdewi.co.uk

**TÎM CYSYLLTWYR FFERM**
0300 0255449
ffarmliaisonservice@llyw.cymru

**SEFYDLIAD FUDDIANOL AMAETHYDDOL FRENHINOL (RABI)**
0800 188 4444
help@rabi.org.uk

**CANOLFAN GYSWLLT CWSMERIAID TALIADAU GWLEDIG CYMRU**
0300 062 5004

**SAMARITANS**
116 123
jo@samaritans.org

**MIND CYMRU**
0300 123 3393
info@mind.org.uk

**SEFYDLIAD DPJ**
0800 587 4262
07860 048799 (testun yn unig)
support@thedpjfoundation.co.uk